

Gwireddu'r Weledigaeth

Y Weledigaeth:

Beth pe bai rhyw fudiad yn gallu ysbrydoli 80 miliwn o bobl o wahanol wledydd a diwyllianau, ym mhob cwr o'r byd, i rannu treftadaeth y ffydd a hyrwyddo heddwch a chyd-ddealltwriaeth?

Mudiad fyddai'n gweithio er mwyn sicrhau hawliau cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol i bawb?

Y ffaith amdani yw, mae gennym fudiad o'r fath, sef y Cyngor Methodistiaidd Byd-eang. Mae'r Cyngor yn cwmpasu 80 o aelod-eglwysi ar chwe chymuned, i gyd yn rhannu'r ddelwedd o ledaenu'r Efengyl a gwneud disgyblion i Grist er mwyn trawsnewid y byd. Y nod yw "cynnwys, grymuso a gwasanaethu'r aelod-eglwysi drwy hyrwyddo undod ymhlith Methodistiaid wrth iddynt dystiolaethu, hwyluso cenhadaeth yn y byd, a meithrin gweithgareddau ecwmenaidd a rhyng-ffydd".

Dyma rai o'r pethau y mae'r Cyngor yn eu gwneud:

- cynnal Cynhadledd Ieuencid Gristnogol Ryngwladol yn rheolaidd, lle caiff pobl ifanc o wahanol wledydd ddod ynghyd i rannu eu dystiolaeth a thechnegau ar gyfer efengylu bywiog ac effeithiol
- amryw byd o fentrau gyda'r bwriad o weithio tuag at gyfiawnder cymdeithasol, lle gellir edrych ar faterion byd-eang mewn cyd-destun lleol (ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn cynnwys lliniaru newyn y byd a'r pandemig HIV ac Aids)
- sgysiau am faterion diwinyddol, cydrhwng yr aelod-eglwysi a chydag eraill drwy gyfrwng Deialog Ecwmenaidd â'r Eglwys Gatholig, y Cymuned Anglicanaidd byd-eang a hefyd – datblygiad newydd pwysig – yr Eglwys Unionged.



Mae'r Cyngor Methodistiaidd Byd-Eang yn cynnal cynhadledd bob 5 mlynedd. Cynhaliwyd y gynhadledd ddiwethaf yn Durban, De Affrica, yn 2011 a'r thema oedd "Iacháu'r Cenhedloedd". Yn ystod y gynhadledd honno cyflwynwyd Gwobr Heddwch Methodistiaid y Byd i Ros Colwill am ei gwaith rhagorol gydag Amaudo yn Nigeria. Mae gwybodaeth am yr achlysur hwn ac am bobl eraill a dderbyniodd y Wobr Heddwch i'w gweld ar wefan y Cyngor, www.worldmethodistcouncil.org



Cynrychiolwyr yn dod at ei gilydd yn Wesley's Chapel, Llundain, yn ystod cyfarfod y Cyngor Methodistiaidd Byd-eang yn 2013

Mae'r Cyngor Methodistiaidd Byd-eang, felly, yn hyrwyddo'r pwyslais a roddwyd gan Fethodistiaid o'r cychwyn ar Efengylu a Chyfiawnder Cymdeithasol a hynny mewn cyd-destun byd-eang, gan wneud deialog diwinyddol effeithiol yn sail i'r gwaith hwn.

A chewch chithau chwarae eich rhan. Dyma sut y gallwch chi gyfrannu...

Ymgyrch 'Gwireddu'r Weledigaeth'. Petai pob aelod yn aelod-eglwysi'r Cyngor Methodistiaidd Byd-eang yn rhoi 20 ceiniog yr un, byddem yn cyflawni'r nod o sefydlu gwaddol o £16 miliwn er mwyn cael ffynhonnell gyson o arian ar gyfer ein gweinidogaeth fyd-eang. Ond sylweddolwn fod 20 ceiniog yr aelod, hyd yn oed, yn gofyn gormod mewn rhai gwledydd. Felly mae'r Gynhadledd Brydeinig yn gofyn i Fethodistiaid yma fod yn arbennig o hael a rhoi 50 ceiniog yr un, am bum mlynedd rhwng 2011 a 2016, er mwyn helpu'r rhai sydd mewn gwledydd lle mae'r economi'n wan.

Mae adnoddau, deunydd ar gyfer addoliad a chwis, i'ch helpu i godi arian, ar gael yn www.methodist.org.uk/mission/world-church

Gallwch gyfrannu i'r gronfa mewn un o ddwy ffordd sef –

1. Trosglwyddiad uniongyrchol o fanc clirio. Gwnewch y taliad os gwelwch yn dda i: cod didoli 400206, rhif cyfrif 30012599, gan ddyfynnu 00017030 WMC ATV ym maes cyfeirnod y taliad.

2. Sieciau yn daladwy i'r Bwrdd Cyllid Canolog. Gellir postio sieciau i: Central Finance Board, 2nd Floor, 9 Bonhill Street, London EC2A 4PE. Dyfynnwch 00017030 WMC ATV os gwelwch yn dda.

Peidiwch, os gwelwch yn dda, â defnyddio gwasanaeth credyd dros y cownter mewn unrhyw fanc gan na fyddwn yn gallu adnabod y credyd ar ein cyfrif.

Yr Eglwys **Fethodistaidd** 



Over 2000 Methodists from around the world march on the streets of Durban, South Africa.